



# Adroddiad ar adolygiad ymarfer: Plentyn M

Bwriad yr astudiaethau achos hyn yw tynnu sylw at broblemau'n ymwneud â gweithredu ymarferol; gan ddwyn ynghyd y ffactorau allweddol, yn enwedig mewn perthynas â gwaith aml-asiantaethol. Byddant yn helpu i roi ffactorau risg yn eu cyd-destun a gofyn cwestiynau ynghylch dulliau atal mewn sefyllfaoedd lle mae camdriniaeth, esgeulustod a niwed yn digwydd. Maent wedi'u crynhoi i helpu gyda'r broses hon, ond mae mwy o wybodaeth ar gael yn yr adroddiadau ar yr adolygiadau.

## Cyd-destun a chefnidir yr adolygiad

Roedd Plentyn M yn 14 oed pan fu farw trwy hunanladdiad yn Aberdaugleddau ym mis Ebrill 2012.

Gan fod Plentyn M wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant adeg ei marwolaeth a gan fod amryw o asiantaethau'n cyfrannu at ei gofal, penderfynodd Bwrdd Diogelu Plant Sir Benfro gynnal adolygiad achos difrifol.

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar yr adolygiad hwnnw ym mis Ionawr 2014.

## Amgylchiadau'r unigolyn a'r heriau a oedd yn ei hwynebu

**1997** Ganwyd Plentyn M yn Sir Benfro ond bu hi'n byw yng Nghernyw gyda'i brawd a'i rhieni tan iddyn nhw wahanu yn 2000.

**2001** Symudodd yn ôl i Sir Benfro gyda'i mam a'i brawd.

**2009** Aeth Plentyn M at ei thiwtor dosbarth yn yr ysgol i godi pryderon ynghylch defnydd ei mam o gyffuriau ac effaith hynny ar y teulu. Roedd hi'n teimlo'n unig hefyd a bod neb yn ei deall yn yr ysgol. O ganlyniad, cafodd ei hatgyfeirio i gwnselydd yr ysgol a chafodd hi chwe sesiwn.

**2010** Ym mis Mawrth, honnodd Plentyn M wrth athro fod ei mam yn ei churo ac nad oedd hi eisieu dychwelyd adref. O ganlyniad, cafodd ei hatgyfeirio i'r Tîm Asesu Gofal Plant yng Nghyngor Sir Benfro. Symudodd Plentyn M i fyw gyda'i nain ar ochr ei Mam. Parodd y trefniant hwn lai na mis ac, ym mis Ebrill, symudodd Plentyn M i fyw gyda'i thad yng Nghernyw.

**2010** Derbyniodd Gwasanaethau Plant Cernyw atgyfeiriad gan Dîm Cyffuriau ac Alcohol Redruth a, phan aethant ati i geisio gweld Plentyn M, dywedwyd wrthynt ei bod hi wedi dychwelyd i Sir Benfro i fyw gyda'i mam.

Bedwar mis cyn hyn, roedd partner mam Plentyn M wedi cael rhybuddiad gan yr heddlu am gynhyrchu canabis yng nghyfeiriad ei mam yn Sir Benfro.

Bu hi'n byw yn nhŷ ei mam am 15 diwrnod cyn rhedeg i ffwrdd, a bu hi ar goll am 17 awr.

Yn dilyn hynny, bu hi'n aros gyda mam ffrind am gyfnod byr cyn dychwelyd i fyw gyda'i thad famol. Parodd y trefniant hwn tan fis Mehefin.

**2011** Yn ystod y cyfnod hwn, cwblhawyd asesiad craidd a chynllun plentyn mewn angen. Nod y cynllun oedd ceisio ailadeiladu perthynas Plentyn M gyda'i mam.

Ym mis Gorffennaf, symudodd Plentyn M i Gernyw unwaith eto i fyw gyda'i thad. Yn ystod y tri mis canlynol, rhedodd Plentyn M i ffwrdd ddwywaith a bu hi'n symud yn ôl a blaen rhwng Cernyw a Sir Benfro.

**2011** Ym mis Medi, cafodd Plentyn M ei derbyn i'r ysbyty ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar ôl iddi geisio crogi ei hun. Cafodd ei throsglwyddo i Ysbyty Llwynhelyg yn Sir Benfro a chynhaliwyd cyfarfod strategaeth amddiffyn plant.



Cafodd Plentyn M ei rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a, thrwy gynllun amddiffyn plant, gwnaed atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Alcohol a Chyffuriau Arbenigol i Bobl Ifanc o dan 18 oed ac i Wasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed. Arhosodd Plentyn M gyda'i modryb ar ochr ei mam tan iddi gael ei rhoi mewn gofal maeth ym mis Rhagfyr 2011.

**2012** Ym mis Ionawr, gwnaeth Plentyn M honiadau o drais rhywiol a oedd wedi digwydd cyn iddi ddod yn blentyn sy'n derbyn gofal. Cychwynnwyd ymchwiliad Adran 47 ar y cyd ond ni chymerwyd unrhyw gamau pellach gan fod Plentyn M wedi tynnu ei honiadau yn ôl.

Yn ystod y cyfnod hwn mewn gofal maeth, derbyniodd Plentyn M wasanaethau gan y Gwasanaeth Alcohol a Chyffuriau Arbenigol i Bobl Ifanc o dan 18 oed, ei gweithiwr cymdeithasol, cynorthwydd gwaith cymdeithasol a nyrs iechyd yr ysgol. Roedd Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed wedi darparu cymorth un-i-un, ond daeth y cymorth hwn i ben ar gais Plentyn M.

Ym mis Mawrth, cafwyd seibiant yng ngofal maeth Plentyn M ac, am dridiau, cafodd ei lleoli gyda gofalwyr seibiant.

Cynhaliwyd adolygiad plentyn sy'n derbyn gofal ar 28 Mawrth, lle nodwyd bod hwyliau ac ymddygiad Plentyn M wedi gwella.

Bu farw Plentyn M ar 2 Ebrill 2012.

## Beth ddigwyddodd?

Mae'r digwyddiadau'n awgrymu bod Plentyn M wedi cael ei magu mewn amgylchedd lle'r oedd sylweddau'n cael eu camdefnyddio a heb ddiffyg sefydlogrwydd yn ei bywyd cartref. Cyfrannodd hyn at ei hymddygiad camweithredol, gan ei rhoi hi mewn perygl. Arweiniodd y trawma hwn at ei hymgais gyntaf i ladd ei hun ac, er i'r holl wasanaethau fynd ati i geisio diwallu ei hanghenion, ni lwyddon nhw i atal hunanladdiad llwyddiannus yn ddiweddarach.

## Pam y digwyddodd?

Mae'r adolygiad achos difrifol yn nodi'r canlynol: "It must remain uncertain whether there were any steps that, if taken, would have prevented Child M's death."

### Gwersi a ddysgwyd o'r digwyddiadau hyn:

- rhaid osgoi oedi yn ymchwiliadau'r heddlu lle mae honiadau o ymosodiad/cam-drin rhywiol difrifol wedi'u gwneud
- gellid gwella cydweithredu a chynllunio aml-asiantaethol, yn enwedig lle mae digwyddiad trawmatig difrifol wedi digwydd yn barod
- gallai Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed fod wedi cael rôl fwy arwyddocaol o ran arwain a chydgyssylltu ymyriadau therapiwtig
- yn y flwyddyn gyntaf yn dilyn digwyddiad trawmatig/yngais hunanladdiad, ni ddylai unrhyw blentyn neu unigolyn ifanc allu rhyddhau ei hun o unrhyw wasanaeth heb asesiad risg aml-asiantaethol
- dylai gweithwyr o bob asiantaeth barhau i dderbyn hyfforddiant fel y'i cyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2008, *Y Cynllun Gweithredu Atal Hunanladdiad i Gymru*. Mae'r cynllun hwn wedi'i ddisodli bellach gan *Siarad â fi 2: Cynllun gweithredu atal hunanladdiad a hunan-niwed Cymru 2015-2020*. [Ilyw.cymru/topics/health/publications/health/reports/talk2/?lang=cy](https://www.gov.wales/topics/health/publications/health/reports/talk2/?lang=cy)
- roedd Plentyn M wedi mynegi ei hamheuon ynglŷn â'r bwriad i'w dychwelyd i ofal ei mam. O edrych yn ôl, gellid bod wedi rhoi mwy o bwys ar ei barn a'i safbwynt hi
- y cwestiwn allweddol yn y broses o gynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc a phenderfynu pa mor barhaol fydd y gofal hwnnw yw "a oes gan y plentyn neu'r person ifanc hwn oedolyn sy'n gweithredu fel rhiant cyfrifol er lles pennaf y plentyn neu'r person ifanc?". Gellid bod wedi gofyn y cwestiwn hwn yn gynharach yn y broses.



## Argymhellion yr adroddiad

Dylai fod gan bob asiantaeth yr adnoddau i sicrhau ymateb amserol i blant a phobl ifanc sy'n gwneud honiadau o ymosodiad rhywiol.

Dylai Bwrdd Diogelu Plant Sir Benfro ddatblygu protocol aml-asiantaethol i asesu plant a phobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl a/neu fathau o ymddygiad sy'n peri risg.

Dylai Bwrdd Diogelu Plant Sir Benfro gael gafael ar becyn hyfforddi aml-asiantaethol i ddarparu sgiliau i helpu staff allweddol a gofalwyr maeth i adnabod a chefnogi pobl ifanc sy'n wynebu risg o fathau o ymddygiad sy'n peri risg a/neu syniadaeth hunanladdiad neu iselder.

Dylai'r pecyn hyfforddi uchod gynnwys canllawiau ar arwyddion rhybudd, ble i gael help a sut i atgyfeirio gwybodaeth ar gyfer gofalwyr maeth, staff ysgol, arweinwyr ieuencid ac ati.

Dylai Bwrdd Diogelu Plant Sir Benfro ddatblygu deunyddiau cyngor ar sut i gael help a chymorth mewn perthynas â hunan-niwed, cymryd risg a phroblemau iechyd meddwl ar gyfer ysgolion a gwasanaethau eraill i ieuencid.

Dylai Bwrdd Diogelu Plant Sir Benfro ofyn i Wasanaethau Plant Sir Benfro adrodd ar drefniadau cynllunio aml-asiantaethol ar gyfer y glasoed sy'n byw oddi cartref.

**Dyfyniad** Bwrdd Diogelu Plant Sir Benfro (2014) *Serious case review in respect of Child M: executive summary*. Sir Benfro: Bwrdd Diogelu Plant Sir Benfro.